Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cefn Rodyn**

**Maes Caled**
**Dolgellau**
**LL40 1UG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cefn Rodyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 22 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Medi 2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Yn dilyn yr arolygiad blaenorol, mae'r darparwr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd yn y gwasanaeth y nodwyd bod angen sylw brys arnynt. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r dogfennau sy'n cofnodi anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r gweithwyr gofal am y ffordd y dylai pob unigolyn gael ei gefnogi a beth yw'r risgiau penodol i'w iechyd a'i ddiogelwch. Gwnaed gwelliannau i amgylchedd y cartref. Mae hyn yn golygu bod risgiau i ddiogelwch y bobl yn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli fel bod iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu hamddiffyn yn well.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Gwneir ymdrechion i gynnwys y bobl mewn penderfyniadau am eu gofal, a rhoddir dewisiadau i'r bobl mewn perthynas â materion o ddydd i ddydd. Caiff apwyntiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol eu trefnu pan fydd anghenion y bobl yn newid. Mae'r bobl yn teimlo y gwrandewir arnynt gan fod y darparwr yn gofyn eu barn fel rhan o'i drefniadau ar gyfer monitro'r gwasanaeth a ddarperir.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, ac maent yn mwynhau eu gwaith. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau, ond nid yw pob un ohonynt wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae'r darparwr wrthi'n mynd i'r afael â'r mater hwn ar hyn o bryd.

## Llesiant

Darperir gofal a chymorth i'r bobl yn eu dewis iaith. Caiff dewis iaith pob unigolyn ei chofnodi yn ei gynllun personol. Caiff y Gymraeg ei hystyried yn rhan bwysig o hunaniaeth y bobl a'r gymuned leol. Darperir dogfennau yn ddwyieithog, heb fod angen i'r bobl ofyn amdanynt. Mae'r arwyddion yn y cartref yn ddwyieithog ac ar ffurf lluniau, sy'n helpu'r bobl â dementia i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y cartref. Clywsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn perthyn yn y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael cymorth i setlo pan fyddant yn symud i mewn i'r gwasanaeth i ddechrau. Dywedodd y perthnasau wrthym *"*[we] *felt at ease"* a chawsant eu siomi ar yr ochr orau o weld pa mor gyflym y llwyddodd eu perthynas i addasu i fyw yn y cartref. Gwelsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn modd parchus a charedig, sy'n helpu i feithrin cydberthnasau cadarnhaol. Mae'r bobl wedi gwneud ffrindiau ag unigolion eraill sy'n byw yn y gwasanaeth, sy'n gwella eu hymdeimlad o lesiant.

Mae trefniadau ar waith i ymateb yn brydlon i faterion diogelu. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r rheolwr yn atgyfeirio materion diogelu at yr awdurdod lleol pan fo angen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth. Mae gwiriadau yn cael eu cwblhau cyn cyflogi gweithwyr gofal newydd i weithio yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl.

Darperir gweithgareddau y gall y bobl edrych ymlaen atynt a'u mwynhau. Gofynnir i'r bobl pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt, a chaiff eu diddordebau eu cofnodi yn eu cynlluniau personol.  Mae hysbysfwrdd yn dangos pa weithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer yr wythnos. Dywedodd y perthnasau wrthym fod amrywiaeth o weithgareddau yn mynd rhagddynt bob tro y byddant yn ymweld. Caiff digwyddiadau fel penblwyddi, y Pasg a'r Nadolig eu dathlu drwy gynnal digwyddiadau arbennig, a chaiff y teuluoedd wahoddiad i ymuno yn y digwyddiadau hyn hefyd.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Caiff eu hanghenion gofal eu hystyried gan y rheolwr cyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i gynnig lle i'r unigolyn yn y gwasanaeth. Caiff anghenion gofal a chymorth pob unigolyn eu cofnodi yn ei gynllun personol, a chaiff y bobl eu cynnwys wrth greu'r cynlluniau hynny. Mae'r gweithwyr gofal yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn y cynllun personol er mwyn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r perthnasau yn disgrifio'r gofal a ddarperir fel gofal rhagorol. Gwnaethant ddweud wrthym: *"It's a relief for us to know (our relative) is safe and looked after by good*

*people".* Mae'r cartref wrthi'n ymdrechu ar hyn o bryd i sicrhau bod pob gweithiwr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol i'w gefnogi yn ei rôl.

## Gofal a Chymorth

Mae proses ar waith i sicrhau bod anghenion gofal y bobl yn hysbys cyn iddynt gael cynnig lle yn y gwasanaeth. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn casglu asesiadau a chynlluniau gofal gan y gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn ymwybodol o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Mae hefyd yn siarad â'r bobl a'u perthnasau er mwyn casglu rhagor o wybodaeth am y canlyniadau y maent am eu cyflawni. Mae hyn yn golygu bod y rheolwr yn hyderus bod y gwasanaeth yn addas ac y gall ddiwallu anghenion y bobl cyn iddynt symud i'r gwasanaeth. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y broses o dderbyn yr aelod o'u teulu i'r cartref wedi cael ei chwblhau'n gwbl ddidrafferth, a bod y dull hwn wedi bod o fudd i bob un ohonynt fel teulu.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r cynlluniau personol. Yn yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd y cynlluniau personol bob amser yn cofnodi'n fanwl pa gymorth sydd ei angen ar bob unigolyn. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen gan y gweithwyr proffesiynol. Caiff dewisiadau pob person o ran sut yr hoffai gael ei gefnogi hefyd eu cofnodi. Caiff y bobl eu cynnwys wrth greu eu cynlluniau personol, a chaiff yr hyn sy'n bwysig iddynt ei gofnodi. Cadarnhaodd y gweithwyr gofal eu bod yn darllen cynlluniau personol y bobl er mwyn deall beth y gallant ei wneud drostynt eu hunain a'r tasgau y mae angen cymorth arnynt i'w cyflawni.

Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn briodol ac yn brydlon pan fydd newidiadau i iechyd corfforol ac emosiynol y bobl. Dywedodd y bobl wrthym fod y gwasanaeth yn trefnu cymorth meddygol pan fydd newidiadau yn eu hiechyd. Gwelsom fod trefniadau wedi'u gwneud i feddyg ymweld ag unigolyn yn ystod ein hymweliad. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn cael gwybod pan fydd ymweliad gan weithiwr meddygol proffesiynol yn cael ei drefnu a phan fydd newidiadau i feddyginiaethau.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu cyfrinachedd ac urddas y bobl. Yn yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd dogfennau cyfrinachol bob amser yn cael eu storio'n ddiogel ac nad oedd y cyfleusterau a oedd ar gael i storio gwastraff clinigol yn amddiffyn urddas y bobl. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi'u cymryd i sicrhau na all pobl heb awdurdod weld gwybodaeth gyfrinachol. Yn ogystal, gwelsom fod cyfleusterau gwastraff clinigol bellach yn cael eu storio mewn lleoliadau allan o'r golwg sy'n amddiffyn preifatrwydd ac urddas y bobl.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo ymdeimlad y bobl o berthyn. Mae ystafelloedd y bobl yn cynnwys eitemau personol sydd o bwys iddynt, a dodrefn o'u cartref lle y bo'n bosibl. Gwelsom fod ystafelloedd y bobl yn cael eu gwneud mor gartrefol â phosibl ar gyfer pob person. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd a'u bod yn cael dewis pa ystafell y byddai'n well ganddynt ei chael. Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod sawl ardal wedi cael ei hailaddurno'n ddiweddar, ac roedd gwaith cynnal a chadw pellach yn mynd rhagddo yn ystod ein hymweliad. Mae sawl lolfa, o wahanol feintiau, ar gael i'r bobl er mwyn iddynt allu eistedd yng nghwmni eraill neu dreulio amser yng nghwmni eu teuluoedd. Hefyd mae ystafell tebyg i heulfan ar gael i'r bobl eistedd ynddi os byddant am wneud hynny. Mae ystafell fwyta fawr lle gall y bobl ddewis eistedd gydag eraill i fwyta eu prydau os byddant am wneud hynny. Mae gardd ac ardal patio hygyrch ar gael sy'n golygu y gall y bobl dreulio amser yn yr awyr agored. Mae ardal smygu ar gael y tu allan hefyd.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau iechyd a diogelwch sydd ar waith. Yn yr arolygiad blaenorol, gwelsom lawer o risgiau yn yr amgylchedd nad oeddent wedi'u nodi na'u rheoli'n ddigonol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod cynhyrchion glanhau a meddyginiaethau wedi'u storio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod dau ymarfer ar gyfer gwagio'r adeilad wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar, sy'n helpu i baratoi'r gweithwyr gofal o ran sut i ymateb os ceir argyfwng yn y gwasanaeth. Gwelsom hefyd fod cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng bellach ar waith, sy'n cofnodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i adael yr adeilad mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau cyn cyflogi unrhyw aelod o staff i weithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethant ddweud wrthym fod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt a'u bod yn teimlo eu bod yn gwrando arnynt pan fyddant yn tynnu eu sylw at unrhyw fater. Cynhelir sesiynau goruchwylio un i un bob tri mis, fel sy'n ofynnol. Mae'r rheolwr hefyd yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi yn ei rôl gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr ardal. Yn yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd pob un o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud, ond roedd angen cymryd camau pellach o hyd. Mae hyfforddiant yn parhau i fod yn faes y mae angen i'r gwasanaeth ei wella.

Mae'r lefelau staffio yn briodol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y lefelau staffio ar y cyfan yn adlewyrchu anghenion a niferoedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cymryd eu hamser wrth gefnogi'r bobl, a bod ganddynt amser i eistedd a siarad â'r bobl. Gwelsom y gweithwyr gofal yn ymateb i anghenion y bobl wrth iddynt godi, heb ruthro. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y gweithwyr gofal bob amser i'w gweld yn y cartref, a'u bod bob amser yn rhyngweithio â'r bobl. Cyflogir staff cegin a staff cadw tŷ, sy'n golygu y gall y staff gofal ganolbwyntio ar gefnogi'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn ffurfiol â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'n cwrdd â'r bobl ac yn gofyn iddynt am eu profiadau. Mae'r cofnodion yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi bod yn rhan o'r trafodaethau a gafwyd o ran sut y gellid gwella'r meysydd o'r gwasanaeth y nodwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol bod angen eu gwella ar frys. Mae proses ffurfiol ar gyfer cynnal adolygiad o ansawdd y gofal yn cael ei chynnal ddwywaith y flwyddyn. Caiff adborth ei gasglu gan y bobl a'u perthnasau fel rhan o'r broses werthuso.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i ymateb i unrhyw gwynion a wneir am y gwasanaeth. Mae'r polisi cwynion yn nodi sut y gellir gwneud cwynion i'r darparwr a'r broses sydd ar waith i ymateb i gwynion. Cadarnhaodd y bobl a'u perthnasau eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion â'r gweithwyr gofal a'r tîm rheoli, os bydd angen. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Gwelsom fod buddsoddiad parhaus yn cael ei wneud yn yr adeilad sy'n sicrhau y caiff gofal a chymorth eu darparu mewn amgylchedd diogel a chyfforddus. Gwneir buddsoddiad i ddatblygu'r staff ac i wella eu cymwysterau hefyd, sy'n

sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n fedrus ac yn llawn cymhelliant yn eu rolau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 57 | Nid yw'r trefniadau ar gyfer rheoli risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd yn gadarn ac mae angen eu gwella. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid oes cynlluniau personol bob amser ar gael i gofnodi anghenion gofal a chymorth y bobl a sut y dylid eu diwallu. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw pob aelod o staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol i'w alluogi i weithio'n ddiogel. Nid yw rhai o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gloywi o fewn yr amserlenni gofynnol. | Heb Gyflawni |
| 25 | Mae lleoliad y biniau gwastraff clinigol yn y cartref a'r trefniadau ar gyfer eu labelu yn amharu ar urddas y bobl. Roedd statws Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol y bobl yn cael ei gofnodi mewn modd nad oedd yn parchu eu hurddas. Nid yw'r broses o gofnodi'r gofal a'r cymorth a ddarperir bob amser yn diogelu urddas y bobl. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/05/2024